# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ymweliad - Ynys Môn** | **Robert Donovan** |
| Dyddiad: Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.30 | 0300 200 6565 |
| | SeneddEconomi@senedd.cymru |

**Ymweliad y Pwyllgor ag Ynys Môn**

Cytunodd y Pwyllgor i ymweld ag Ynys Môn i glywed am ddatblygiad y Safle Rheolaethau'r Ffin yng Nghaergybi, ac i ymweld â'r porthladd ei hun a chynnal trafodaethau ar Borthladd Rhydd Ynys Môn ac economi ehangach yr Ynys.

Roedd gan yr ymweliad dri nod allweddol:

- Archwilio materion masnach a'r ffin ar ôl Brexit gan gynnwys datblygu'r Safle Rheolaethau'r Ffin ac effaith Brexit a Fframwaith Windsor ar Borthladd Caergybi;
- Archwilio datblygiad Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan gynnwys unrhyw fanteision ac anfanteision economaidd posibl; ac
- Archwilio economi ehangach yr Ynys gan gynnwys heriau a chyfleoedd yn ogystal â chlywed am yr ymateb i'r penderfyniad i gau ffatri 2 Sisters.

Roedd yr ymweliad yn cynnwys pedair elfen - ymweld â'r Safle Rheolaethau'r Ffin ym Mharc Cybi lle cawsant daith o amgylch y safle a chyfle i gwrdd â swyddogion a fu'n rhan o'r broses o'i ddatblygu. Aeth yr Aelodau draw wedyn i'r porthladd ei hun lle buont yn trafod traffig a masnach gyda Stena - gweithredwr y porthladd. Yn olaf, aeth y Pwyllgor i Ganolfan Fusnes Môn lle cawsant ddau gyfarfod anffurfiol gyda rhanddeiliaid lleol allweddol gan gynnwys Cyngor Ynys Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i drafod y porthladd rhydd ac economi ehangach yr ynys.

1 **Parc Cybi, Safle Rheolaethau’r Ffin**

(09.30-10.35)

2 **Porthladd Caergybi**

(10.50-12.10)

3 **Canolfan Fusnes Ynys Môn, Llangefni**

(12.40-15.45)